**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru

20 Hydref 2022

Annwyl Llyr,

Mae'r llythyr hwn i'ch hysbysu fy mod wedi cyhoeddi *Strategaeth Ddrafft ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Gweithredu gan y Cyhoedd ar Newid Hinsawdd (2022-2026)*. Bydd y strategaeth hon yn destun cyfnod ymgynghori o 8 wythnos rhwng 20 Hydref a 14 Rhagfyr. Bydd yn ganolog i Wythnos Hinsawdd Cymru rhwng 21 a 25 Tachwedd hefyd. Rwy'n disgwyl cyhoeddi fersiwn derfynol y strategaeth yn y flwyddyn newydd.

Mae'r strategaeth ddrafft yn cyfrannu at gyflawni'r ymrwymiad yn Cymru Sero Net (Polisi 16) i ymgynghori ar Strategaeth Newid Ymddygiad y Cyhoedd. Mae gwaith ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd yn llywio ein ffordd o weithio sy'n canolbwyntio ar bobl o ran yr argyfwng hinsawdd. Fy mwriad yw annog pobl a chymunedau Cymru i gymryd rhan weithredol a mynd ati i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Er bod y gwaith o ddatblygu'r *Strategaeth Ddrafft ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Gweithredu gan y Cyhoedd ar Newid Hinsawdd (2022-2026)* wedi'i ysgogi gan yr ymrwymiad yn Cymru Sero Net i gynnwys aelodau cymdeithas mewn camau i ddatgarboneiddio, mae hefyd yn nodi pwysigrwydd meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd ynghylch yr angen i addasu ein cartrefi a'n cymunedau i effeithiau anochel newid hinsawdd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cwmpas y strategaeth hefyd yn adlewyrchu:

- y gydberthynas bwysig rhwng yr argyfwng hinsawdd a’r argyfwng natur;
- y ddwy her o fynd i'r afael â'r argyfwng ynni a newid hinsawdd;
- pwysigrwydd cyfiawnder cymdeithasol o ran sut rydym yn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change